**<u>Y PWYLLGOR DIWYLLIANT CC 01-03 p4</u>**

**Dyddiad:** 16 Ionawr 2003

**Amser:** 1.30pm - 4.00pm

**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**BLAENRAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU - TYMOR Y GWANWYN 2003**

| **Dyddiad** | **Eitemau ar yr agenda** |
|---|---|
| Dydd Iau 16 Ionawr 2003 (1.30pm) | <u>1. Yr adolygiad chwaraeon: sesiwn casglu gwybodaeth:-</u><br>• Uned Strategaeth Swyddfa'r Cabinet<br>• Sylwadau Cyngor Chwaraeon Cymru ar y materion a godwyd<br>• Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon yr Anabl (Cymru).<br><br>2. Y flaenraglen waith ddiweddaraf |
| | |
| Dydd Mercher 22 Ionawr 2003<br><br>(am) | <u>1. Yr adolygiad chwaraeon: ystyried y dystiolaeth:-</u><br>• Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (yr Ysgrifenyddiaeth)<br>• Dadansoddiad o'r sesiynau rhoi tystiolaeth lafar (yr Ysgrifenyddiaeth)<br>• Crynodeb o'r materion pwysicaf (yr Ysgrifenyddiaeth)<br><br>2. <u>Yr adolygiad chwaraeon:</u> Papur safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfranogiad mewn chwaraeon.<br><br>3.Cyngor yr Amgueddfeydd<br><br>4. Ymddiriedolaeth Gelf Bae Caerdydd: cyflwyniad<br><br>5. Adroddiad misol y Gweinidog |
| | |

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher<br>5 Chwefror<br>2003<br><br>(am) | 1. <u>Yr adolygiad chwaraeon: braslun o’r argymhellion ("penawdau'r adroddiad")</u><br>2. <u>"Diwylliant Cytun" –gweithredu argymhellion y Pwyllgor.</u> Adroddiad cynnydd gan y Gweinidog ar y Strategaeth Ddiwylliant – "Cymru Greadigol".<br><br>3. Y Mesur Cyfathrebu. Adroddiad ar ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion y Cynulliad. [amseru – i'w gadarnhau] |
| | |
| Dydd Mercher<br>26 Chwefror<br>2003<br><br>(am) | 1. <u>Yr adolygiad chwaraeon: drafft cyntaf o'r adroddiad terfynol</u><br>2. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: cyflwyniad. Cynllun corfforaethol/ adroddiad blynyddol.<br>3. <u>Adolygiad polisi: diwylliant Eingl-Gymreig. Sesiwn gwmpasu:</u><br><br>• Datganiad safbwynt gan y Gweinidog.<br>• Papur cefndir gan yr Ysgrifenyddiaeth<br><br>4. Adroddiad misol y Gweinidog. |
| | |
| Dydd Mercher<br>12 Mawrth 2003<br><br>(am) | 1. <u>Yr adolygiad chwaraeon: cytuno ar ail ddrafft o’r adroddiad terfynol.</u><br>2. <u>Adolygiad polisi: diwylliant Eingl-Gymreig. Sesiwn gwmpasu.</u><br><br>• Cyflwyniadau ar agweddau ar ddiwylliant Eingl-Gymreig. Bydd y cyflwyniadau’n helpu’r Pwyllgor i benderfynu ar y cylch gorchwyl. [Cyflwynwyr i'w cadarnhau.]<br><br>3. Adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Diwylliant ar gyfer 2002-03 ac adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd ers mis Mai 1999. |
| | |
| [Dydd Iau 20<br>Mawrth 2003]<br><br>(pm)<br><br>(i'w gadarnhau) | Dim cyfarfod wedi'i drefnu. [Y Pwyllgor i ystyried ym mis Chwefror a oes angen cynnal sesiwn ychwanegol (e.e. os cafwyd oedi gyda'r adroddiad chwaraeon).] |

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher<br>26 Mawrth 2003<br><br>(am) | 1. <u>"Ein Hiaith: Ei Dyfodol"</u> <u>– gweithredu argymhellion y Pwyllgor.</u><br><br>• Adroddiad cynnydd gan y Gweinidog ar y broses o weithredu'r strategaeth ar y Gymraeg "Iaith Pawb" – targedau a dyraniadau cyllid manwl ar gyfer 2003-04.<br><br>1. <u>Adolygiad polisi: diwylliant Eingl-Gymreig. Sesiwn gwmpasu.</u><br><br>• Trafod cylch gorchwyl drafft ar gyfer adolygiad polisi yn y dyfodol.<br><br>1. Adroddiad trosglwyddo drafft ar gyfer y pwyllgor a fydd yn olynu'r pwyllgor hwn (cysylltu ag eitem 2).<br><br>4. Adroddiad misol y Gweinidog. |

**<u>Eitemau eraill posibl ar gyfer tymor y gwanwyn:</u>**

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru – cyfle i graffu ar y cynllun corfforaethol a'r adroddiad blynyddol [i'w gadarnhau – dydd Mercher 12 Mawrth?]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg – cyfle i graffu ar y cynllun corfforaethol a'r adroddiad blynyddol [i'w gadarnhau – 26 Mawrth?]

***Eitemau posibl ar gyfer tymor yr haf:***

Cyflwyniad gan y Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth

Cyflwyniad gan Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

Cyflwyniad ar CultureNet Cymru.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Ionawr 2003**